**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 6: ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL RHIANT CORFFORAETHOL 2024/25

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd a nodwyd y wybodaeth yn yr adroddiad sy'n adrodd ar waith y Panel Rhiant Corfforaethol ar gyfer y flwyddyn 2024/25.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw darparu diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Panel Rhiant Corfforaethol yn ystod y cyfnod.

Mae'n hanfodol bod aelodau'r Cabinet yn ymwybodol o waith y Panel ac yn gallu bodloni eu hunain bod y Panel wedi ymgymryd â'r gwaith sydd ei angen yn drylwyr a chydwybodol.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Nia Jeffreys. Nid oedd yr aelod o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a ni adawsant y cyfarfod.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 7: ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL A HUNANASESIAD CYNGOR GWYNEDD 2024/2025

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 ac argymhellwyd i'r Cyngor Llawn ei fod yn ei fabwysiadu.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Yn unol â chyfundrefn rheoli perfformiad y Cyngor, cyflwynir Adroddiad Perfformiad Blynyddol a Hunanasesiad Cyngor Gwynedd 2024/25 i'r Cabinet yn gyntaf am gymeradwyaeth.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 8: ADRODDIAD CHWARTEROL - CADEIRYDD Y BWRDD RHAGLEN CYNLLUN YMATEB (TACHWEDD 2025)

## PENDERFYNIAD

Derbyniwyd yr adroddiad gerbron sef yr ail adroddiad chwarterol gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Cynllun Ymateb gan Gabinet Cyngor Gwynedd ym mis Ionawr 2025 i goladu'r holl gefnogaeth, adolygiadau, archwiliadau a ffrydiau gwaith eraill yn ymwneud â'r ymateb i droseddu yr gan y Pennaeth Ysgol, Neil Foden.

Bu addewid i adrodd yn chwarterol i Aelodau'r Cabinet ar gynnydd rhaglen waith a gweithrediad y Bwrdd Ymateb.

Rhennir yr adroddiad gan Gadeirydd y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb, gyda'r bwriad o godi ymwybyddiaeth o'r datblygiadau a'r hyn sydd wedi ac yn parhau angen ei gyflawni gan y Bwrdd Rhaglen Cynllun Ymateb.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 9: YMGYNGHORIAD STATUDOL AR BARC CENEDLAETHOL ARFAETHEDIG GLYNDWR

## PENDERFYNIAD

Cymeradwywyd yr ymateb yn Atodiad 4 fel ymateb Cyngor Gwynedd ar yr ymgynghoriad statudol gan ychwanegu gwrthwynebiad i'r gorchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig i Barc Cenedlaethol Arfaethedig Glyndŵr.

Dirprwywyd yr hawl i Bennaeth Adran yr Amgylchedd wneud unrhyw addasiadau ansylweddol y gallai fod yn ofynnol i'r ymateb cyn iddo gael ei gyflwyno i Cyfoeth Naturiol Cymru.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Fel ymgynghorai statudol, mae'n ofynnol i Gyngor Gwynedd ddarparu ymateb ffurfiol i'r ymgynghoriad statudol ar orchymyn dynodi drafft a ffin arfaethedig y parc cenedlaethol arfaethedig. Mae'r ymgynghoriad statudol wedi cychwyn ar 15 Medi 2025 ac yn cau ar y 8 Rhagfyr 2025.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol a'r Aelod Lleol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o’r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo’r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

**PWNC**

Eitem 10: CYNNAL PLEIDLAIS ARDALOEDD GWELLA BUSNES CAERNARFON

**PENDERFYNIAD**

1. Nodwyd bod y Cynnig Ardal Gwella Busnes (AGB) a dogfennau atodol gan HWB Caernarfon wedi eu derbyn gan y Cyngor a’u bod yn cydymffurfio gyda’r Rheoliadau;

2. Cyfarwyddwyd y Swyddog Canlyniadau i gynnal pleidlais HWB Caernarfon;

3. Cymeradwywyd y trefniadau a’r goblygiadau ariannol a nodir yn Rhan 3 o’r adroddiad;

4. Dirprwywyd yr hawl i Aelod Cabinet Economi i bleidleisio ar ran yr Awdurdod ym mhleidlais yr AGB.

5. Os yw’r bleidlais yn llwyddiannus yng Nghaernarfon ac yn unol â Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005, dirprwyir hawl i Bennaeth Gwasanaeth Economi a Chymuned mewn ymgynghoriad â phenaethiaid yr adrannau canlynol i gymeradwyo'r fersiwn derfynol o’r Cytundeb Ymarferol a’r Cytundeb Gwaelodlin a chwblhau y cytundebau yn unol a threfniadau y Cyngor:
- Amgylchedd
- Priffyrdd, Peirianneg ac YGC
- Cyfreithiol
- Cyllid.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Fe nodir yn Rheoliadau Ardal Gwella Busnes (Cymru) 2005 fod angen i awdurdodau lleol awdurdodi y broses o gynnal pleidlais Ardal Gwella Busnes. Yn unol â chyfansoddiad y Cyngor, y Cabinet sydd yn gyfrifol am awdurdodi hyn.

Mae gan awdurdodau lleol yr hawl feto os yw’n ystyried y byddai cynigion AGB yn debygol o wrthdaro’n sylweddol gyda pholisi presennol, yn gosod baich ariannol ar drethdalwyr, neu fod baich yr ardoll yn rhy uchel. Fodd bynnag, fe gefnogir y bwriad o gynnal pleidlais oherwydd:

- Mae cynnig HWB Caernarfon yn ymateb i heriau sydd wedi eu hadnabod gan y gymuned fusnes.
- Wrth gynnal pleidlais, mae'r gymuned fusnes yn derbyn y cyfle i gefnogi HWB Caernarfon er mwyn rhoi'r gallu iddynt wireddu'r amcanion sydd wedi eu nodi o fewn y cynlluniau busnes.
- Gallai'r HWB Caernarfon arfaethedig ddenu buddsoddiad ychwanegol ag uchafu cynnig a phroffil Caernarfon
- Byddai' HWB Caernarfon yn gyfrwng i gydweithio gyda'r Cyngor i ddarparu gwasanaethau ychwanegol.

Nid oes sail i weithredu y feto statudol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 11: CYSONI FFIOEDD AM OFAL I OEDOLION YNG NGWYNEDD

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Polisi Codi Tâl am ofal diwygiedig yn unol ag argymhellion yr adroddiad hwn.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Ar y 15/10/24, cyflwynwyd adroddiad Llechen Lân i'r Cabinet, ac amlygwyd yr heriau ariannol a demograffeg sy'n wynebu'r gwasanaethau cymdeithasol yng Ngwynedd dros y blynyddoedd nesaf. Os am sicrhau cynaliadwyedd i'r dyfodol, mae'n rhaid edrych ar faint o ofal sy'n cael ei ddarparu ac ym mha ffordd. Yn ychwanegol i hyn, er mwyn sicrhau cynaliadwyedd mae angen i'r Cyngor godi ffi am wasanaethau lle mae'r hawl ganddo i wneud hynny.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Paul Rowlinson a bu i'r aelod adael y cyfarfod.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 12: YMGYNGHORIAD LLYWODRAETH CYMRU AR YMESTYN Y DYLETSWYDD AR AWDURDODAU LLEOL I DDARLLEDU CYFARFODYDD

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd yr ymatebion i gwestiynau Ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar ymestyn y dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i ddarlledu cyfarfodydd (fel a nodir yn Atodiad A), er mwyn ymateb i'r ymgynghoriad ar ran y Cyngor.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ffurfiol yn ceisio barn ar a ddylid ymestyn y dyletswydd statudol i ddarlledu cyfarfodydd awdurdodau lleol, y tu hwnt i'r cyfarfodydd cyngor llawn sydd eisoes yn destun y ddyletswydd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021.

Ar hyn o bryd, dim ond cyfarfodydd y Cyngor llawn sy'n ofynnol eu darlledu. Mae'r ymgynghoriad yn gofyn am farn ynghylch ymestyn y dyletswydd i gynnwys pwyllgorau eraill, ac mae goblygiadau adnoddau a chost i'r Cyngor ynghlwm â phenderfyniad o'r fath.

Yn sgil y goblygiadau pellgyrhaeddol allai godi o benderfyniad i ymestyn y gofynion gweddarlledu, gofynnir i'r Cabinet am arweiniad gwleidyddol ar ymateb Cyngor Gwynedd i'r ymgynghoriad.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

**PWNC**

Eitem 13: TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU A/NEU CODI PREMIWM AR AIL GARTREFI AC EIDDO GWAG HIRDYMOR

**PENDERFYNIAD**

Argymellwyd i'r Cyngor llawn ar 4 Rhagfyr 2025 mai'r canlynol yw'r opsiwn a ffafrir o safbwynt lefel y Premiwm ar Dreth Cyngor Ail Gartrefi ac Anheddau Gwag Hirdymor ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27:

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ar ail gartrefi dosbarth A, yn unol ag Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt ac yn CODI PREMIWM O 150% ar ail gartrefi dosbarth B, yn unol ag Adran 12B o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. dim newid).

- Fod Cyngor Gwynedd yn caniatáu DIM disgownt i gartrefi sydd wedi bod yn wag am 6 mis neu fwy ac yn CODI PREMIWM O 150% ar gartrefi sydd wedi bod yn wag am 12 mis neu fwy, yn unol ag Adran 12A o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (h.y. yn cynyddu'r premiwm o 100% i 150%).

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Yn unol â gofynion Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, rhaid i'r Cyngor wneud penderfyniad blynyddol os yw am godi Premiwm ar Dreth Cyngor eiddo gwag hir-dymor ac ail gartrefi ("anheddau wedi eu meddiannu'n gyfnodol). Heb benderfyniad, byddai'n rhaid cynnig disgownt o 50% ar Dreth Cyngor eiddo o'r fath.

Er mai'r Cyngor llawn sydd rhaid gwneud y penderfyniad terfynol ynglŷn â disgownt neu bremiwm Treth Cyngor, a lefel y disgownt neu bremiwm, yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae angen i'r Cabinet wneud argymhelliad i'r Cyngor llawn.

Ar gyfer blynyddoedd ariannol 2024/25 a 2025/26, mae'r Cyngor wedi codi Premiwm Treth Cyngor o 150% ar ail gartrefi a 100% ar eiddo gwag hirdymor, ond mae deddfwriaeth yn rhoi caniatâd i'r Cyngor godi Premiwm o hyd at 300%.

Fodd bynnag, pe bai'r Cyngor yn cynyddu'r gyfradd Premiwm, bydd yn rhaid iddo ystyried

a fyddai penderfyniad o'r fath yn rhesymol ar ôl ystyried y canllawiau statudol, canlyniad ymchwil a chyngor cyfreithiol y mae'r awdurdod wedi'i gael.

Mae copi o’r Canllawiau Statudol diweddaraf yn Atodiad 2.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Dewi Jones a bu i’r aelod adael y cyfarfod

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 14: POLISI LLEIHAU TRETH CYNGOR O DAN ADRAN 13A(1)(C) O DDEDDF CYLLID LLYWODRAETH LEOL 1992

## PENDERFYNIAD

Mabwysiadwyd Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i roi arweiniad a ffiniau clir i swyddogion ar y defnydd o eithriadau rhag y Premiwm a'r Dreth Cyngor sylfaenol.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992, yn rhoi pwerau disgresiwn ychwanegol i'r Cyngor leihau swm y Dreth Gyngor sy'n daladwy ar gyfer unigolion, neu ar gyfer dosbarthiadau o drethdalwyr. Nid yw Adran 13A yn gosod cyfyngiad ar ei ddefnydd felly mae'r gofyn am ddefnydd gofalus a chyson, heb osod cynsail niweidiol, yn hanfodol.

Mae'r polisi hwn yn nodi'r meini prawf a'r broses ar gyfer dyfarnu gostyngiadau dewisol i Dreth Cyngor yn unol ag Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992.

Ar hyn o bryd, mae Cyngor Gwynedd wedi ddefnyddio Adran 13A o Ddeddf 1992 i gyflwyno eithriadau lleol, dewisol mewn achosion cyfyng iawn. Er enghraifft, ar 8 Ebrill 2025 penderfynodd y Cabinet ddefnyddio Adran 13A i roi gostyngiad lleol i Ofalwyr Maeth yng Ngwynedd, ac mae prosiect 3e yn y Cynllun Gweithredu Tai yn defnyddio'r grym i roi gostyngiad treth i brynwyr tro cyntaf sy'n atgyweirio eiddo, y tu hwnt i'r eithriad statudol.

Rhaid i unrhyw gamau i arddel y grym hwn fod yn gyson â deddfwriaeth arall (e.e. Deddf Cydraddoldeb, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol). Yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor ac Adran 67 Deddf 1992, mater i'r Cabinet yw defnydd Adran 13A, nid yw'n fater sy'n rhaid cael penderfyniad Cyngor llawn. Mae'r pŵer dan Adran 13A (1)(c) yn eang, ac yn caniatáu'r awdurdod bilio ostwng bil Treth Cyngor unrhyw annedd am unrhyw gyfnod ag y mae'r awdurdod bilio yn ei weld yn addas.

Mae copi o'r Polisi Lleihau Treth Cyngor o dan Adran 13A(1)(c) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'w gael yn Atodiad 1. Mae'n ymarfer da i gael Polisi o'r fath er mwyn sicrhau tryloywder a chysondeb, gyda chanllawiau clir i swyddogion ond ar yr un pryd yn egluro'r camau sydd angen eu cymryd i ymdrin ag achosion sydd yn wirioneddol eithriadol.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Datganwyd buddiant gan y Cyng. Dewi Jones a bu i'r aelod adael y cyfarfod.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 15: TROSOLWG ARBEDION: ADRODDIAD CYNNYDD AR WIREDDU CYNLLUNIAU ARBEDION

## PENDERFYNIAD

1.1 Derbyniwyd y wybodaeth yn yr adroddiad a nodwyd y cynnydd tuag at wireddu cynlluniau arbedion 2025/26 a blynyddoedd blaenorol.

1.2 Cymeradwywyd dileu un cynllun arbedion gwerth £25k perthnasol i 2025/26 yn y maes Cyswllt Cwsmer yn yr Adran Gwasanaethau Corfforaethol, gan ddefnyddio'r ddarpariaeth arbedion a osodwyd o'r neilltu yn y gyllideb gorfforaethol.

1.3 Cymeradwywyd arian pontio o £80k y flwyddyn am gyfnod o ddwy flynedd ar gyfer 2025/26 a 2026/27 i gynllun arbedion Neuadd Dwyfor yn yr Adran Economi a Chymuned.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Mae gwireddu'r cynlluniau unigol yn gyfrifoldeb aelodau perthnasol o'r Cabinet, sy'n herio perfformiad yr adrannau gan gynnwys cynnydd y cynlluniau arbedion. Cyfrifoldeb yr Aelod Cabinet dros Gyllid yw cadw trosolwg o'r darlun cyfan.

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

## UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

## PWNC

Eitem 16: CYLLIDEB REFENIW 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST 2025

## PENDERFYNIAD

1.1 Cymeradwywyd cymorth ariannol ychwanegol uwchlaw'r taliad cytundebol sydd yn amcanu i fod yn £219k i Gwmni Byw'n Iach i'w gyllido o'r gronfa trawsffurfio, gan ddirprwyo'r hawl i'r Aelod Cabinet dros Economi mewn ymgynghoriad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid, Prif Weithredwr a'r Pennaeth Cyllid i gytuno ar swm y gefnogaeth ariannol derfynol uwchlaw y tâl cytundebol gyda Byw'n Iach ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

1.2 Gofynwyd i'r Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Amgylchedd gyflwyno adroddiad pellach ar yr opsiynau posib ar gyfer ariannu'r costau o ddiogelu/dymchwel adeilad y Corbett Arms yn Nhywyn.

1.3 Cymeradwywyd trosglwyddiad o £3.757 miliwn o danwariant ar gyllidebau corfforaethol i Gronfa Cefnogi Strategaeth Ariannol y Cyngor, gyda'i ddefnydd i'w ystyried cyn diwedd y flwyddyn ariannol bresennol.

1.4 Cymeradwywyd y trosglwyddiadau ariannol fel yr amlinellir yn Atodiad 3 yn dilyn adolygiad o'r cronfeydd, gan ddileu gwerth £576k o falansau negyddol ar gronfeydd yr Adran Oedolion, Iechyd a Llesiant sef £300k a'r Adran Plant a Theuluoedd £276k, yn dilyn i'r adrannau fethu cyflawni gwasanaethau o fewn eu cyllideb dros y tair blynedd ddiwethaf.

## RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD

Pwrpas yr adroddiad hwn yw ceisio rhoi tafluniad o'n sefyllfa refeniw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Felly mae'r symiau a nodir isod yn amcan o'r hyn a ragwelwn erbyn Mawrth 2026 ac nid symiau sy'n cynrychioli gorwariant heddiw.

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor (e.e. cymeradwyo trosglwyddiadau sylweddol neu gyllideb ychwanegol).

## DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â’r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.

**TAFLEN BENDERFYNIAD CABINET**
**CYNGOR GWYNEDD**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y Cyfarfod o'r Cabinet:** | 11 Tachwedd 2025 |
| **Dyddiad y bydd y penderfyniad yn dod i rym** ac y gweithredir arno, oni bai bo'r penderfyniad yn cael ei alw i mewn yn unol ag adran 7.25 o Gyfansoddiad Cyngor Gwynedd | 26 Tachwedd 2025 |

**PWNC**

Eitem 17: RHAGLEN GYFALAF 2025/26 - ADOLYGIAD DIWEDD AWST (SEFYLLFA 31 AWST 2025)

**PENDERFYNIAD**

• Derbyniwyd yr adroddiad ar adolygiad diwedd Awst (sefyllfa 31 Awst 2025) o'r rhaglen gyfalaf.

• Cymeradwywyd yr addasiadau canlynol i'r Gyllideb Gyfalaf a gymeradwywyd ar 6 Mawrth 2025 o safbwynt dulliau ariannu'r rhaglen (fel nodir yn rhan 3.2.3 o'r adroddiad), sef:
-cynnydd o £290,000 mewn defnydd o fenthyca
-cynnydd o £13,390,000 mewn defnydd o grantiau a chyfraniadau
-cynnydd o £36,000 mewn defnydd o gyfraniadau refeniw
-lleihad o £2,743,000 mewn defnydd o'r gronfa gyfalaf
-cynnydd o £29,000 mewn defnydd o gronfeydd adnewyddu ac eraill.

**RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD**

Cyfrifoldeb y Cabinet yw cymryd camau, fel bo angen, er mwyn sicrhau rheolaeth briodol dros gyllidebau'r Cyngor. Rhaid sicrhau trefniadau ariannu priodol ar gyfer cynlluniau'r Cyngor i wario ar gyfalaf. Y Cabinet sydd wedi'u hawdurdodi i addasu'r rhaglen gyfalaf. Gofynnir am gymeradwyaeth i'r rhaglen arfaethedig (rhan 3.2.2) a'i ariannu (rhan 3.2.3).

Argymhellir yma gamau er mwyn sicrhau ffynonellau ariannu pendant am gynlluniau cyfalaf 2025/26 – 2027/28.

**DATGANIADAU O FUDDIANT PERSONOL AC UNRHYW OLLYNGIADAU PERTHNASOL A GANIATAWYD GAN Y PWYLLGOR SAFONAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol na gollyngiadau perthnasol.

**UNRHYW YMGYNGHORIADAU A GYNHALIWYD CYN GWNEUD Y PENDERFYNIAD**

Ymgynghorwyd â'r Swyddogion Statudol sydd wedi eu cynnwys yn yr adroddiad.